

Merthyr Tudful ...

... lle i fod yn falch ohono

Merthyr Tydfil ...

... a place to be proud of



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

CYNLLUN GWEITHREDU SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

Rhagfyr 2021



Cynnwys

Adran 1 – Cyflwyniad.3

Adran 2 – Safonau Darparu'r Gwasanaeth.4

Adran 3 – Safonau Llundio Polisi7

Adran 4 – Safonau Gweithredol.8

Adran 5 – Monitro a goruchwyllo.11

Adran 1 – Cyflwyniad

Mae Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 yn hepgor Deddf yr Iaith Gymraeg, 1993. Fel rhan o'r ddeddfwriaeth newydd yng Nghymru, mae gan yr Iaith Gymraeg statws cydradd â'r Saesneg ac ni ddylai gael ei thrin yn llai ffafrinol. Nid oes angen i gyrff cyhoeddus ddatblygu a gweithredu Cynlluniau yn yr Iaith Gymraeg bellach ond yn hytrach, mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â chyfres o Safonau Cenedlaethol ar gyfer yr Iaith Gymraeg drwy is-ddeddfwriaeth (Safonau Rheoleiddio'r Iaith Gymraeg.)

Derbyniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ei Hysbysiad Cydymffurfiaeth terfynol gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg ar 30 Medi 2015. Roedd yr hysbysiad yn amlinelli cyfrifoldeb y Cyngor i gyflawni 171 o Safonau Statudol yr Iaith Gymraeg a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru, o dan Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r ddogfen hon wedi cael ei chreu er mwyn cydymffurfio â'r safonau canlynol y mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful gyfrifoldeb i gydymffurfio â hwy - 157, 163, 169 a 159, 165, 171. Bydd y ddogfen hon yn nodi sut y mae'r Cyngor yn bwriadu cydymffurfio â safonau darparu'r gwasanaeth, safonau gosod polisi a'r safonau gweithredol a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg i'r Cyngor. Mae hefyd yn nodi'n trefniadau ar gyfer goruchwyllo, hybu a hwyluso'r safonau hyn, gan gynnwys datblygiad.

Mae copi o'r Hysbysiad Cydymffurfiaeth sydd yn rhestru'r safonau ac a gyhoeddwyd ar gyfer y Cyngor ac a gyfeirir atynt yn y ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyngor.

Adran 2 – Safonau Darparu'r Gwasanaeth

Sut ydym yn bwriadu cydymffurfio	Hybu a hwyluso
Gohebiaeth Pan fydd gohebiaeth yn cael ei derbyn yn y Gymraeg, byddwn yn ymateb iddi yn y Gymraeg (oni bai fod yr unigolyn wedi nodi nad yw am dderbyn ymateb yn y Gymraeg.) Pan fyddwn yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o unigolion, byddwn yn anfon fersiwn yn y Gymraeg ar yr un adeg. Bydd yr iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn yr un fodd â'r Saesneg.	Mae'r adran hon yn nodi beth y mae'r Cyngor yn ei wneud er mwyn hybu a hwyluso gweithrediad y safonau. • Mae system ffôn y Cyngor yn darparu cyfarchiad yn y Gymraeg sydd yn nodi fod gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael. • Mae'r Cyngor yn defnyddio'r fewnrhwyd er mwyn rhoi arweiniad a thempledi i gynorthwyo staff sydd yn cydymffurfio â'r safonau. Mae stondinau desgiau hefyd wedi cael eu dosbarthu, ledled y Cyngor er mwyn cynorthwyo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle e.e. wrth ateb y ffôn. • Mae nifer o brosesau'n cael eu defnyddio, ledled y Cyngor er mwyn cofnodi'r dewis o iaith. • Mae e-byst allanol a thempledi llythyron ffurfiol y Cyngor yn cynnwys y geiriad; 'Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog' / 'We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead
Galwadau Ffôn Bydd galwadau ffôn yn cael eu hateb â chyfarchiad dwyieithog a bydd opsiwn ar gael yn yr iaith Gymraeg ar system ffôn y Cyngor. Byd tîm o siaradwyr Cymraeg ar gael i dderbyn yr alwad hyd nes y bydd angen trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad sydd yn siarad y Gymraeg ond all ddarparu gwasanaeth ar fater penodol ac nad oes aelod o staff sydd yn siarad y Gymraeg ar gael i wneud hynny.	
Gwasanaethau'r Dderbynfa Bydd unigolion sydd yn ymweld â dderbynfa'r Cyngor yn cael eu cyfarch yn ddwyieithog ac yn cael mynediad i'r gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y logo 'Iaith Gwaith' yn cael ei arddangos a bydd laniardiau'n cael eu gwisgo er mwyn nodi pa staff all ymateb i'r ymholiad yn y Gymraeg.	
Cyfarfodydd Pan fydd angen gwneud hynny, bydd y Cyngor yn hwyluso cyfarfodydd trwy gyfrwng y Gymraeg.	

	to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual’.
Digwyddiadau cyhoeddus Bydd y digwyddiadau hyn yn cael eu hysbysebu, yn unol â safonau’r Iaith Gymraeg fel bod y wybodaeth yn ddwyieithog. Bydd swyddogion sydd â sgiliau yn yr Iaith Gymraeg ar gael.	Gwneud ymdrech weithredol i recriwtio siaradwyr Cymraeg mewn swyddi lle y bydd angen dod i gysylltiad wyneb yn wyneb â chwsmeriaid. Mae rhagor o staff sydd yn siarad y Gymraeg wedi cael eu hapwyntio i swyddi allweddol sydd yn dod in gyswllt â’r cyhoedd.
Cyhoeddusrwydd, Deunyddiau Marchnata a Dogfennau Cyffredinol y Cyngor Bydd dogfennau dwyieithog yn cael eu cyhoeddi gan y Cyngor. Lle na fydd hyn yn bosibl, bydd ‘Mae’r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg’ ‘This document is available in Welsh’, yn cael ei nodi.	Darparwyd arweiniad ynghylch cynnal cyfarfodydd dwyieithog (yn fewnol ac yn allanol.) Mae’r wybodaeth hon yn ogystal â gwybodaeth amrywiol arall ar gael ar fewnwyd y Cyngor ac yn y llyfryn; ‘Y Gymraeg – beth sydd wedi newid.’
Dogfennau a Ffurflenni Mae’r dogfennau a’r ffurflenni gofynnol yn cael eu rhestru yn yr Hysbysiad Cydymffurfiaeth ac maent ar gael yn ddwyieithog.	Mae’r wefan a ffurflenni ar y we ar gael yn y Gymraeg (mae opsiwn i drosglwyddo o’r naill iaith i’r llall ar y wefan.) Mae cofnodion ac agenda dwyieithog ar gael ar wefan y Cyngor.
Arwyddion a Hysbysiadau Pan fydd arwyddion newydd yn cael eu gosod, byddant yn ddwyieithog a’r Gymraeg yn gyntaf.	Mae gwybodaeth ynghylch gwasanaethau cyfieithu ar gael ar y fewnwyd. Gellir hefyd trefnu cyfieithu ar y pryd.
Gwefannau a gwasanaethau ar-lein Bydd gwefan y Cyngor, apiau, systemau hunanwasanaeth a ffurflenni ar-lein ar gael yn ddwyieithog. Bydd unrhyw gyhoeddiadau cyhoeddus / negeseuon ar system gyhoeddi cyhoeddus yn cael eu gwneud yn y Gymraeg a’r Saesneg.	Mae’r geiriad canlynol yn cael ei gynnwys ar ddogfennau yn y Saesneg: ‘Mae’r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg’ ‘This document is available in Welsh’.
Dyfarnu grantiau Bydd ceisiadau’N cael eu croesawi yn y Gymraeg. Bydd y Cyngor yn hybu ac yn hwyluso’r Iaith Gymraeg drwy’r broses grantiau.	
Dyfarnu Contractau	

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi gwahoddiadau tendr ar gyfer contractau yn y Gymraeg a gellir cyflwyno tendrau yn y Gymraeg gan nodi na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Gellir defnyddio gwasanaeth cyfieithu (y Gymraeg i'r Saesneg) yn ôl y gofyn, yn ystod y broses (e.e. yn ystod y cam cyfweld.) Os bydd tendr yn cael ei gyflwyno yn y Gymraeg, bydd y sawl sydd yn cyflwyno'r tendr yn cael ei hysbysu o'r penderfyniad yn y Gymraeg.	• Mae staff wedi derbyn Hyfforddiant Ymwybyddiaeth yn yr Iaith Gymraeg. Mae hyfforddiant ychwanegol hefyd ar gael fel rhan o Strategaeth newydd y Cyngor yn yr Iaith Gymraeg. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar fewnwyd y Cyngor. • Mae arwyddion yn y dderbynfa, llofnodion e-byst a logos ar gael ar y fewnwyd. Mae Swyddog Polisi'r Iaith Gymraeg ar gael i gynnig cymorth a chynghor. Mae gan y Cyngor Eiriolydd y Gymraeg sydd yn Etholedig (Aelod o'r Cabinet) a Swyddogion y Gymraeg, ledled y Cyngor. • Mae'r Cyngor yn adnewyddu'r broses gynefino. Mae Safonau'r Iaith Gymraeg yn rhan o hyn. • Mae cwrs mynediad yn y Gymraeg yn cael ei hybu ar gyfer pob un aelod o'r staff. Mae staff sydd yn dod i gysylltiad wyneb yn wyneb â chwsmeriaid wedi ei gwblhau. Mae hyn hefyd yn ofyniad wrth apwyntio ar gyfer swyddi newydd.
Cyrsiau a gynigir gan gorff Os yw'r Cyngor yn cynnig cwrs / cyrsiau ar gyfer y cyhoedd, gofynnir i ddysgwyr os byddai'n well ganddynt wneud y cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg ac hwylusir hyn, pan fydd angen gwneud hynny.	

Adran 3 – Safonau Gosod Polisi

Sut rydym yn bwriadu cydymffurfio	Hybu a hwyluso
Penderfyniad Polisi ac Asesu'r Iaith Gymraeg Bydd y Cyngor yn ymwreiddio'r iaith Gymraeg mewn penderfyniadau polisi ac asesu. Bydd y defnydd o'r Gymraeg yn cael ei hybu ac ni fydd yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.	• Mae gan y Cyngor asesiad effaith integredig (AEI) sydd yn ofynnol wrth wneud penderfyniadau corfforaethol (e.e. penderfyniadau'r Cabinet a'r Cyngor.) Mae asesiadau yn rhan allweddol. Mae AEI ar gael ar wefan y Cyngor.

Adran 4 – Safonau Gweithredol

Sut rydym yn bwriadu cydymffurfio	Hybu a hwylsuo
Defnyddio'r Gymraeg yn fewnol Bydd y Cyngor yn datblygu polisi mewnol ar gyfer staff sydd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.	- Mae'r Cyngor wedi datblygu llyfryn - "Y Gymraeg - beth sydd wedi newid" ac wedi datblygu tudalen ar y fewnrhwyd. Maent yn darparu gwybodaeth ar sut all staff defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Bydd hyn yn cael ei newid yn bolisi ar gyfer staff sydd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ac yn cynorthwyo adran weithlu Strategaeth Iaith Gymraeg y Cyngor. - Mae polisiau AD yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd a byddant yn cael eu cyfieithu a'u cyhoeddi fel rhan o'r broses. - Mae cwynion a gweithdrefnau disgyblu ar gael yn y Gymraeg a gellir defnyddio cyfieithu ar y pryd os bydd angen. - Mae'r Cyngor wedi tanysgrifio i Cysgliad sydd ar gael i bob un aelod o'r staff. - Mae gwybodaeth am hyfforddiant ar gael ar y fewnrhwyd. Mae cwrs mynediad yn y Gymraeg yn cael ei hybu ar gyfer pob un aelod o'r staff. Mae hefyd yn ofyniad wrth apwyntio am swyddi newydd. Mae staff wedi derbyn
Swyddi newydd Pan fydd swydd yn cael ei chynnig i unigolyn, bydd y Cyngor yn gofyn os hoffai'r unigolyn hwnnw dderbyn ei gontract cyflogaeth neu gontract ar gyfer gwasanaethau yn y Gymraeg.	
Polisiau AD Bydd polisiau AD perthnasol yn cael eu cyfieithu a'u cyhoeddi ar y fewnrhwyd er mwyn i staff allu eu cyrchu.	
Cwynion a Disgyblu Mae'r prosesau hyn ar gael yn y Gymraeg a bydd y Cyngor yn eu hwyluso, yn ôl y galw. Bydd dogfennau perthnasol ar gael yn ddwyieithog. Bydd cyfieithiadau ar y pryd hefyd ar gael.	
Meddalwedd Mae meddalwedd gwirio sillafu yn y Gymraeg ar gael ar gyfer pob un aelod o staff sydd ei angen. Mae'n cael ei hybu drwy uwch dîm arweiniol y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi tanysgrifio i Cysgliad.	
Y Fewnrhwyd	

Mae tudalen gartref yn y Gymraeg ar gael ar y fewnrhwyd ag eitemau sydd yn berthnasol i'r Gymraeg.	Hyfforddiant Ymwybyddiaeth yn y Gymraeg. Mae hyfforddiant ychwanegol ar gael fel rhan o Strategaeth newydd y Cyngor yn yr Iaith Gymraeg.
Asesu Sgiliau Iaith Bydd y Cyngor yn asesu sgiliau iaith Gymraeg ei gyflogeion.	• Mae'r Cyngor yn adolygu ei broses gynefino. Mae Safonau'r Iaith Gymraeg yn rhan o hyn.
Hyfforddiant Hyfforddiant yn yr Iaith Gymraeg – gall staff gyrchu amrywiaeth o gyrsiau. Mae hyn yn cynnwys lefel mynediad yn y Gymraeg (gofynnol ar gyfer pawb sydd yn dechrau o'r newydd.) Mae cyrsiau'n cael eu hysbysebu i staff ond blaenoriaethir staff sydd yn dod i gysylltiad, wyneb yn wyneb â'r cyhoedd. Hyfforddiant Ymwybyddiaeth yn yr Iaith Gymraeg – Mae'r Cyngor wedi gweithio â phartneriaid er mwyn darparu'r hyfforddiant hwn ar gyfer staff. Mae'n parhau i gael ei atgyfnerthu.	• Mae arolwg o staff y Cyngor yn cael ei ddatblygu fel rhan o welliant parhaus. Bydd yn cael ei ddefnyddio er mwyn deall sgiliau a dewisiadau ieithyddol staff, yn well. • Mae'r fewnrhwyd yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau er mwyn cyflawni anghenion staff yn well, Bydd darpariaeth yn y Gymraeg yn rhan allweddol o hyn. Mae'r Cyngor yn hybu dyddiadau allweddol o ran yr iaith (e.e. Gŵyl Dewi a Diwrnod Hawliau'r Gymraeg.) Mae hyn yn gysylltiedig â Strategaeth Iaith Gymraeg y Cyngor a digwyddiadau yn yr Iaith Gymraeg.
Asesu gofynion ieithyddol ar gyfer pob swydd wag Mae rheolwyr yn cwblhau asesiad ar gyfer pob rôl gan gynnwys natur y rôl a'r ddarpariaeth gyfredol oddi fewn i'r gwasanaeth. Gwerthusir yr asesiad hwn gan y tîm rheoli corfforaethol cyn y cyfweiliad. Mae'r Cyngor yn nodi fod y Gymraeg yn ddymunol ymhob hysbyseb. Pan fyd y Gymraeg yn angenrheidiol, bydd y Cyngor yn hysbysebu ar blatfform yn yr iaith Gymraeg.	• Mae asesiadau yn yr Iaith Gymraeg yn cael eu cynnwys yn ystod proses moratoriwm y Cyngor er mwyn llenwi swyddi. Mae rheolwyr yn cwblhau'r asesiad ar gyfer pob swydd. Mae hyn yn cynnwys natur y rôl a'r ddarpariaeth gyfredol yn y gwasanaeth. Mae'r asesiad hwn yn cael ei werthuso gan dîm rheoli corfforaethol y Cyngor cyn y cyfweiliad. Mae'r Cyngor yn nodi fod y Gymraeg yn ddymunol ymhob hysbyseb swydd. Pan mae'r Gymraeg yn angenrheidiol,
Ffurflenni cais	

Bydd y Cyngor yn nodi y gall ffurflenni cais gael eu cyflwyno yn y Gymraeg ac ni fyddant yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r Saesneg.	mae'r Cyngor yn hysbysebu ar blatfformau yn yr iaith Gymraeg. • Mae'r Cyngor yn ailddatblygu'r broses recriwtio fel rhan o'r rhaglen flaenoriaeth. Mae gofynion yn yr iaith Gymraeg yn allweddol i'r gwaith. • Mae arwyddion yn y dderbynfa, llofnodion e-byst a logos ar gael ar y fewnrhywd. Mae Swyddog Polisi'r Iaith Gymraeg ar gael i gynnig cymorth a chyngor.
Llofnodion e-byst, negeseuon allan o'r swyddfa a logo 'Cymraeg gwaith.' Bydd llofnodion e-byst, allan o'r swyddfa a'r logo 'Cymraeg gwaith' (lle'n addas) yn cael eu defnyddio gan staff. Bydd gwybodaeth ar gael trwy'r fewnrhwyd a gan y swyddog polisi.	
Arwyddion gan corff penodol Mae canllawiau ynghylch arwyddion mewnol ar gael ar dudalen fewnrhwyd y Cyngor.	
Cyhoeddiadau a negeseuon sain gan gorff penodol Os yw'r Cyngor yn gwneud cyhoeddiad ar offer sain, yn y gweithle bydd yn cael ei wneud yn y Gymraeg (gyda'r Gymraeg yn gyntaf.)	

Adran 5 – Monitro a goruchwyllo

Mae'r adran hon yn ystyried sut y mae darpariaeth gwasanaeth, llunio polisi a safonau gweithredol yn cael eu monitro gan CBSMT.

Monitro Darpariaeth y Gwasanaeth

Bydd Trosolwg Strategol yn cael ei ddarparu trwy'r Aelod Etholedig sydd yng ngofal portffolio'r Iaith Gymraeg. Mae gan y Cyngor Aelod Etholedig sydd yn Eiriolwr y Gymraeg yn ogystal.

Bydd darpariaeth gweithredol yn cael ei fonitro trwy uwch dîm arweiniol y Cyngor, grwpiau llywio perthnasol neu rwydweithiau rheolwyr. Mae'r Cyngor yn cynhyrchu Adrodiad Blynnyddol ar yr Iaith Gymraeg sydd yn cael ei gymeradwyo gan y Cabinet ac sydd ar gael i'r cyhoedd.

Mae ymarfer siopwr cudd yn cael ei weithredu sydd yn bwydo i mewn i'r cynlluniau gwasaneth er mwyn cynnig gwelliannau a bod yr Iaith Gymraeg (fel gwasanaethau eraill) yn cael eu halinio â phrosesau rheoli perfformiad y Cyngor.

Monitro Llundio Polisi

Mae'r Cyngor yn defnyddio dull asesu effaith integredig (AEI) er mwyn hysbysu pob penderfyniad y mae'r Cabinet a'r Cyngor yn ei wneud (gan gynnwys gwybodaeth a gyflwynir i'r Cabinet a'r Cyngor.) Mae'r AEI hwn yn cynnwys yr Iaith Gymraeg.

Mae gan y Cyngor Swyddog Polisi'r Iaith Gymraeg a Swyddog all gefnogi darpariaeth Strategaeth yr Iaith Gymraeg a WESP. Gall y swyddogion hyn gynnig cyngor ar bolisiau a phenderfyniadau allweddol.

Monitro Safonau Gweithredol

Mae prosesau Perfformiad Corfforaethol y Cyngor yn cynnwys mesur yr Iaith Gymraeg. Mae'r Iaith Gymraeg wedi cael ei hintegreiddio â Chynllun Llesiant Corfforaethol y Cyngor. Mae felly'n cael ei monitro gan gynlluniau strategol allweddol. Golyga hyn y bydd yr adroddiad blynnyddol yn cael ei gymeradwyo gan y Cabinet. Bydd uwch arweinwyr yn derbyn diweddariadau rheolaidd a heriau gweithredol.

Bydd newidiadau gweithredol penodol yn rhan o gynlluniau darparu'r gwasanaeth. Byddant yn cael eu monitro trwy lywodraethu cyfredol. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys fod yn rhan o ymarferion hunanwerthuso sydd yn bwydo i mewn i'r broses graffu. Bydd y gwersi a ddysgir a'r ymarferion gorau yn cael eu rhannu ledled y Cyngor, trwy'r broses hon.

Mae'r broses apwyntio yn cynnwys dadansoddiad i ofynion ieithyddol pob swydd. Mae rheolwyr yn cwblhau ffurflen asesiad sydd yn cynnwys natur y swydd a darpariaeth gyfredol y gwasanaeth. Mae'r asesiad hwn yn cael ei werthuso gan dîm rheoli corfforaethol y Cyngor cyn mynd ymlaen i gyfweiliad.